

Ymweliadau Tramor
Canllaw lluniwyd gyda chymorth
Banel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored

Mae tystiolaeth dda ynghylch manteision teithiau ysgol tramor: gellir rhoi dysgu mewn cyd-destun, mae llawer o gyfleoedd i gynyddu annibyniaeth, mantais adeiladu'r berthynas rhwng staff a disgyblion a'r cysylltiad dilynol yn y dosbarth, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a'r lluo o fanteision sy'n fwy anos i'w dangos ond sy'n cael eu meithrin pan fo pobl ifanc yn teithio ac sy'n gallu cael effaith gadarnhaol iawn ar unigolion a'r gymdeithas. Mae'r Adran Addysg yn dymuno parhau i annog a chefnogi ysgolion gyda gweithgareddau o'r fath ond mae hefyd yn cydnabod yr angen i'w hystyried o fewn cyd-destun diweddar yn y byd.

Mae ymosodiadau terfysg diweddar yn Ewrop wedi arwain at lawer o awdurdodaeth, codi lefel y bygythiad cenedlaethol a lefel uwch o ddiogelwch dros y wlad. **Mae Prydain hefyd yn parhau ar wylidwriaeth uwch (dwys).**

Yn seiliedig ar y cyngor ac arweiniad presennol a ddarparwyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (SDCh) a'r canllaw cenedlaethol cyffredinol gan Banel Ymgynghorol Addysg Awyr Agored (PYAAA), rhaid i ysgolion sydd wedi cynllunio ymweliadau tramor ac o'r ynys gadw eu hunain yn gyfredol ynghylch y sefyllfa bresennol, cadw mewn cysylltiad rheolaidd a'u trefnydd taith, y cyswllt yn yr ysgol a gwyllo'r cyfryngau. Dywed cyngor cyffredinol y SDCh:

“Mae terfysgaeth yn fygythiad byd eang. Gall ymosodiadau ddigwydd yn unrhyw le yn y byd, fel arfer heb fawr neu ddim rhybudd. Mae ymosodiadau terfysg tramor wedi targedu pobl o'r gorllewin, gan gynnwys teithwyr ac alltudion o Brydain.

Ystyrir bod bygythion uwch o ymosodiad terfysg yn fyd eang yn erbyn diddordebau'r DU a phobl o Brydain gan grwpiau neu unigolion sydd wedi'u symbylu gan y gwrthdaro yn Irac a Syria.”

Mae'r Adran Addysg yn parhau i gadw golwg clos ar y sefyllfa, a bydd yn cael ei arwain gan gyngor ac arweiniad Swyddfa Dramor a Chymanwlad (SDCh) Prydain.

Canllaw'r Adran Addysg:

Oherwydd digwyddiadau diweddar bydd yr angen am wylidwriaeth uwch yn parhau ar gyfer ymweliadau o'r ynys. Mae'r Adran Addysg yn dilyn cyngor y SDCh ac nid yw'n bresennol yn cynghori y dylai ymweliadau'r dyfodol gael eu canslo. Dylid parchu pryderon rhieni ond os bydd caniatâd i deithio'n cael ei dynnu yn ôl ac mae'n annhebygol y bydd polisïau yswiriant yn darparu ar gyfer unrhyw golled ariannol.

Dylai ysgolion ystyried y pwyntiau canlynol ar gyfer unrhyw ymweliad:

- Dylai penaethiaid, arweinwyr ymweliad a staff sy'n mynd gyda hwy adnewyddu eu gwybodaeth bresennol o [ganllaw ymweliadau tramor PYAAA](#) [<http://oeapng.info/download/1228/>](http://oeapng.info/download/1228/), adolygu eu taith ac asesiadau risg (e.e. cadw symud o gwmpas dinasoedd mawr o leiaf i'r lleiafswm) i sicrhau bod arweinwyr ymweliad yn parhau'n hyderus ynghylch cynnal teithiau.
- Mae Llywodraeth y DU wedi darparu [cyngor <https://www.gov.uk/guidance/reduce-your-risk-from-terrorism-while-abroad>](https://www.gov.uk/guidance/reduce-your-risk-from-terrorism-while-abroad) penodol ynghylch teithio tramor. Dylai egwyddorion cyffredinol y canllaw gael eu hystyried ar gyfer unrhyw ymweliad o'r ynys.
- Dylai staff ymweld wyllo fideo [Stay Safe](#) a sicrhau eu bod yn ymwybodol o rif(au) argyfwng y wlad (gwledydd) perthnasol.
- Dylid adolygu rheoli goruchwyliaeth o bell ymhob dinas, canolfannau teithio a lleoedd cyhoeddus ble mae torfeydd; mae goruchwyliaeth glos yn debygol o fod yn fwy priodol, gyda therfynau clir iawn, manau cyfarfod gwybyddus gyda man cyfarfod cynllun B hefyd yn ei le (gallai effaith dychryn di-sail ar grŵp sydd wedi gwahanu hyd yn oed fod yn arwyddocaol). Rhaid i'r holl staff a disgyblion fod yn ymwybodol o'r trefniadau cysylltu mewn argyfwng.
- Os ydych chi'n teithio dramor mae angen i arweinwyr ymweliad ystyried caniatáu mwy o amser ar gyfer archwiliadau diogelwch ychwanegol (ar ffiniau, mewn digwyddiadau, etc.) a'r effaith y gall hyn ei gael ar feysydd awyr/porthladdoedd a chanolfannau teithio eraill. Gall rhai gyda phasport nad yw o'r undeb Ewropeaidd wynebu tarfu pellach ac mae angen ystyried hyn yn ystod y camau cynllunio.
- Cyn ac yn ystod unrhyw ymweliad tramor, dylid edrych yn rheolaidd ar wefan y SDCh, <https://www.gov.uk/foreign-travel-advice> am y wlad (gweledydd) yr ymwelir neu y croesir trwyddynt.
- Dylai bod arian wrth gefn ar gael bob amser a chynllun B yn ei le pe bai'r angen yn codi i wneud newidiadau i'r daith. Rhaid i arweinwyr ymweliad ac ysgolion ystyried sut fyddent yn ymdrin â tharfu llwyr ar eu taith a tharfu ar ffôn symudol/cyfathrebu.
- Rhaid i gysylltiadau argyfwng cartref 24/7 (fel bob amser) sicrhau fod ganddynt yr holl ddogfennau angenrheidiol ar gyfer y teithiau a gwneud trefniadau i aros mewn cysylltiad ag arweinwyr ymweliad dros gyfnod y daith.
- Wrth drefnu teithiau tramor, dylai staff bob amser sicrhau fod ganddynt rif cyswllt tu allan i oriau unrhyw asiant trefnu a/neu ddarparydd (ddarparwyr) trydedd blaid.
- Byddai cynllun Digwyddiad Difrifol yr Adran Addysg yn cael ei weithredu pe bai ysgolion y tu hwnt i'w mecanweithiau dygymod. Mae gan uwch reolaeth adrannol a swyddogion allweddol fynediad at ddogfennau teithiau a ddarparwyd gan ysgolion ar Evolve.
- Ni ddylai penderfyniad a fydd ymweliad yn cael ei gynnal (neu beidio) fod yn seiliedig ar ffactorau ariannol h.y. *'a fydd cwmni yswiriant yn talu neu beidio'*. Dylai'r ysgol fod yn fodlon gyda'r camau rheoli adolygedig ac unrhyw newidiadau a nodwyd i'r daith a rhaid i'r tîm ymweld barhau i deimlo'n hyderus eu bod yn gallu arwain yr ymweliad.